**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Minister for International Relations and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: WAQ 79405

Dr Dai Lloyd AC
Dai.Lloyd@cynulliad.cymru

24 Chwefror 2020

Annwyl Dai,

Gydag ymddiheuriadau am yr oedi, gweler isod fy ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad rhifau 79405 a 79406, os gwelwch yn dda.

**Cwestiwn 79405:**

> **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Oes bwriad gan y Gweinidog i ddwyn perswad ar Gyngor Dinas a Sir Abertawe i atal Ysgol Gynradd Felindre rhag gael ei gwerthu mewn arwerthiant yn Llundain ar 13 Chwefror 2020, yn sgil penderfyniad polisi gan y cyngor oedd ei hun yn groes i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011? WAQ79405 (w)

**Ymateb y Gweinidog:**

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw rheoli ei asedau felly ni fyddwn fel arfer yn ymyrryd yn y broses hon.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio lleoedd mewn ysgolion. Rhaid iddynt sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigon o ran nifer, cymeriad ac offer i ddarparu'r cyfle i bob disgybl gael addysg briodol.

Gwn fod cynllunio a threfnu lleoedd mewn ysgolion yn fater cymhleth a sensitif ac yn aml mae'n rhaid i gynghorau wneud penderfyniadau anodd.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i gyflwyno Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i Lywodraeth Cymru sy'n dangos sut y byddant yn gwella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal leol. Mae'r CSCA yn greiddiol i dwf addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050.

**Cwestiwn 97406**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Cyngor Abertawe i gau Ysgol Gynradd Felindre, a beirniadaeth y Comisiynydd Iaith? WAQ79406 (w)

**Ymateb y Gweinidog**

Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio lleoedd mewn ysgolion. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol adolygu i ba raddau y mae eu patrwm presennol o ddarpariaeth ysgolion yn bodloni'r galw cyfredol a rhagweledig am leoedd mewn ysgolion a gofynion cyflwyno'r cwricwlwm modern. Fel arfer, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn uniongyrchol yn y cynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion.

Wrth wneud newidiadau sylweddol i ysgolion, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau, a'r brif ystyriaeth yw ansawdd a safonau addysg. Pan fo cynnig yn golygu cau ysgol cyfrwng Cymraeg, rhaid i'r cynigydd gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ac asesiad o'r effaith ar y gymuned.

Rwy'n ymwybodol bod Cyngor Abertawe wedi cynnal ymgynghoriad chwe wythnos ym mis Medi 2018 yn cynnig i gau ysgol Felindre. Cyhoeddodd y Cyngor hysbysiad statudol ym mis Ionawr 2019 a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ym mis Chwefror 2019. Cymeradwyodd Cabinet y Cyngor y cynnig ar 29 Mai 2019 a chaeodd yr ysgol ar 31 Awst 2019.

Yr eiddoch yn gywir

**Eluned Morgan AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language